



Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2012 -2016



Os hoffech gael copi o'r ddogfen hon mewn fformat gwahanol neu yn eich iaith eich hun, cysylltwch â

Stephanie Aldridge
Swyddog Polisi Cynorthwyol - Cydraddoldeb
a Pholisi Cymdeithasol
Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NG
Ffôn: - 01352 702131
E-bost:- stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk

Cyngor Sir y Fflint
Cynllun Cydraddoldeb Strategol
2012 – 2016

Cynnwys	Tudalen
Rhagair	5
1. Cyflwyniad	6
1.1 Deddfwriaeth	6
1.2 Proffil Cymunedol	6
1.3 Y Cyngor	10
2. Amcanion Cydraddoldeb	12
2.1 Datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb	12
2.2 Amcanion Cydraddoldeb Rhanbarthol	12
2.3 Datblygu Amcanion Cydraddoldeb Lleol	13
2.4 Blaenoriaethau Lleol	14
3. Cyflawni ein hamcanion	15
4. Gweithredu – Sut y byddwn yn cyflawni'r Dyletswyddau Penodol	
4.1 Trefniadau ar gyfer nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth	23
4.2 Trefniadau ar gyfer asesu effaith	23
4.3 Trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth	24
4.4 Sut y byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb mewn caffael	25

5 Monitro ac Adolygu 26

6. Cyhoeddi 26

Atodiadau

1. Cynllun Gweithredu

2. Amcanion Rhanbarthol

3. Ymchwil Ranbarthol

Rhagair

Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf Cyngor Sir y Fflint. Rydym yn falch o gyhoeddi'r cynllun hwn sy'n rhoi manylion am yr amcanion, camau gweithredu a thargedau a fydd yn cael sylw yn ystod y pedair blynedd nesaf a nodi'r sail dystiolaeth a'r rhesymeg y mae'r amcanion yn seiliedig arnynt. Am y tro cyntaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r holl gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru ac wedi nodi amcanion cydraddoldeb lefel uchel rhanbarthol yn ogystal â lleol. Bydd gweithio mewn partneriaeth i nodi amcanion cydraddoldeb cyffredin a chanolbwyntio gweithgarwch ar fynd i'r afael â meysydd penodol o anghydraddoldeb o fudd i bob rhan o gymuned Gogledd Cymru. Mae ein hamcanion yn seiliedig ar y canlynol: -

- Iechyd
- Addysg
- Cyflogaeth
- Diogelwch Personol
- Cynrychiolaeth a Llais
- Mynediad i wybodaeth, gwasanaethau a'r amgylchedd

Wrth gynhyrchu'r cynllun hwn byddwn yn cyflawni ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu anghyfreithlon, a meithrin cysylltiadau cymunedol da yn ein swyddogaethau cyflogaeth, polisi, caffael a darparu gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn disodli ac yn adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd gennym drwy Gynlluniau Cydraddoldeb blaenorol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ochr yn ochr â'r Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb a'r Cynllun Iaith Gymraeg yn gosod allan ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei integreiddio ar draws deg blaenoriaeth gwella'r Cyngor.

Roedd cynnwys ystod eang o bobl o gefndiroedd amrywiol yn natblygiad y Cynllun hwn yn hanfodol i'n cynorthwyo i nodi'r newidiadau y mae angen i ni eu gweithredu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Sir y Fflint. Rydym wedi gwerthfawrogi'r cyfraniadau gan bawb sydd wedi cymryd rhan.

Os hoffech chi gymryd rhan a chyfrannu at barhau i nodi blaenoriaethau a fydd yn lleihau anghydraddoldebau yn Sir y Fflint, cysylltwch â ni.

Colin Everett
Prif Weithredwr

Cyng. Arnold Woolley
Arweinydd, Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Sir y Fflint – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016

1. Cyflwyniad

1.1 Deddfwriaeth

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 â deddfwriaeth cydraddoldeb bresennol ynghyd a chyflwyno nodweddion gwarchoddedig fel a ganlyn:-

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Cyflwynwyd dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus gan y Ddeddf, sy'n gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
a

(c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae gan gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ddyletswyddau penodol sy'n cynnwys gosod a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS). Dyma Gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf Cyngor Sir y Fflint sy'n nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol ac amcanion cydraddoldeb lleol a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Pwrpas y cynllun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ar draws y nodweddion gwarchoddedig sy'n byw a gweithio yn Sir y Fflint. Rhoddir sylw i'r iaith Gymraeg yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

1.2 Proffil Cymunedol

Mae Sir y Fflint yn sir lled-wledig Gymreig yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'n ffinio â Swydd Gaer i'r dwyrain, Wrecsam i'r de a Sir Ddinbych i'r gorllewin. Yn ôl yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Blynnyddol o'r Boblogaeth,

mae poblogaeth Sir y Fflint wedi cynyddu o 142,036 ym 1991 i 149,709 yn 2010.

Oedran

Yn ôl rhagfynegiadau poblogaethau awdurdodau lleol a wnaed gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 ar gyfer 2009-2031, bydd maint y boblogaeth yn 153,677 yn 2015 a bydd 62,232 o'r rheiny yn 50 oed ac yn hŷn. Mae hynny'n cyfateb i oddeutu 40% o gyfanswm y boblogaeth. Mae'r rhagfynegiadau hyn hefyd yn dangos y bydd 42,616 o'r boblogaeth yn 24 oed neu'n iau; sy'n cyfateb i oddeutu 28% o'r boblogaeth.

Anabledd

Mae anabledd yn cael ei ddiffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith tymor hir ac effaith sylweddol ar allu pobl i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys anffurfiad difrifol hefyd. Nid yw union niferoedd y bobl anabl sy'n byw yn Sir y Fflint yn hysbys; mae'r tablau canlynol yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig.

Tabl 1 Cofrestr Anabledd Sir y Fflint 2004/05

Pobl fyddar gyda lleferydd	88
Pobl fyddar heb leferydd	50
Pobl drwm eu clyw	292
Pobl ddall	391
Pobl rhannol ddall	349
Pobl mewn dosbarthiadau cyffredinol	4,264
Cyfanswm nifer y bobl	5,416

Ffynhonnell: Uned Ddata Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2005)

Tabl 2: Sir y Fflint: Cofrestr o bobl ag anableddau dysgu ar 31 Mawrth 2005

Cyfanswm y bobl 16-64 oed	410
Cyfanswm y bobl 65+ oed	20
Cyfanswm y bobl	430

Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru (mis Mawrth 2005)

Hil

Mae canran isel o bobl o gefndir nad yw'n wyn (mae hyn wedi cynyddu o 0.5% ym 1991 i 0.8% yn 2001 fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2001).

Mae grŵp bach ond rheolaidd o Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig sy'n byw yn yr ardal. Mae un safle parhaol sy'n eiddo i'r Cyngor a thri safle sy'n eiddo preifat ar gyfer y gymuned Teithio. Mae safle arall sy'n eiddo preifat wedi cael caniatâd cynllunio dros dro am bum mlynedd. Mae proffil o wersylloedd heb awdurdod wedi tynnu sylw at amllder a phatrwm manau aros.

Er i gymuned Wyddelig gael ei nodi yn y Cyfrifiad (0.6%), mae cymunedau Eidalaidd a Phwyleg sefydledig nas nodwyd yn y Cyfrifiad hefyd. Yn ogystal, ers 2004 mae mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn dod i weithio a byw yn Sir y Fflint. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn seiliedig yn ardaloedd Glannau Dyfrdwy a'r Fflint ac yn cael eu cyflogi mewn sectorau penodol, er enghraifft, y diwydiant bwyd a'r sector gofal cymdeithasol. Daw'r prif grŵp o weithwyr mudol o Wlad Pwyl. Mae data ar gael ar weithwyr mudol o'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr a cheisiadau am Rif Yswiriant Gwladol, ond er hynny, cydnabyddir nad yw hyn yn gynrychiolaeth gywir.

Tabl 3: Proffil ethnig Sir y Fflint

Grwpiau Ethnig	Nifer	%
Gwyn Prydeinig	145,158	97.7%
Gwyn Gwyddelig	884	0.6%
Gwyn Arall	1,358	0.9%
Cymysg (Gwyn a Du Caribïaidd neu Affricanaidd, Gwyn ac Asiaidd, Arall)	526	0.3%
Asiaidd (Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaid, Arall)	271	0.2%
Du (Caribïaidd, Affricanaidd, Arall)	97	0.1%
Tsieineaidd (Tsieineaidd, Arall)	300	0.2%
Cyfanswm y boblogaeth	148, 594	

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2001

leithoedd

Mae archwiliad ar y cyd ag asiantaethau partnerol wedi sefydlu bod dros 30 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yn Sir y Fflint, yn ogystal ag iaith Arwyddion Prydain, Cymraeg a Saesneg.

Yr Iaith Gymraeg

Dangosodd cyfrifiad 2001 fod 21.4% o boblogaeth Sir y Fflint yn meddu ar o leiaf un medr iaith Gymraeg, bod 17.01% o drigolion yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg a 4.4% arall yn nodi eu bod yn deall Cymraeg.

Hunaniaeth Gymreig

Yn ôl yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth 2009, mae 44.6% o drigolion Sir y Fflint yn ystyried eu hunain yn Gymry o gymharu â 65.1% ar gyfer Cymru gyfan.

Crefydd

Mae Sir y Fflint yn gymuned Gristnogol yn bennaf, gyda dim ond grwpiau bach o grefyddau eraill a nodwyd yn cael eu cynrychioli o fewn y boblogaeth. Mae 79.2% o'r boblogaeth yn Gristnogol, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (71.9%) a chyfartaledd y DU (71.6%).

Mae 0.1% o'r boblogaeth yn Fwslimiaid o gymharu â 0.3% yng Ngogledd Cymru, 0.7% yng Nghymru gyfan, 3.0% yng Nghymru a Lloegr a 2.7% yn y DU. Bwdhaeth yw'r grefydd fawr arall a gaiff ei chydabod yn Sir y Fflint, gan ffurfio 0.1% o'r boblogaeth. (Cyfrifiad 2001)

Rhyw

Nododd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol (30 Mehefin 2010) fod 49% o'r boblogaeth yn Sir y Fflint yn ddynion a 50.7% yn fenywod.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Nid oedd Cyfrifiad 2001 yn casglu manylion ynghylch cyfeiriadedd rhywiol trigolion y DU; er hynny, mae actiwariad y Llywodraeth yn amcangyfrif bod 6% o'r boblogaeth yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD). Mae grŵp cymdeithasol ar gyfer y gymuned Lesbiaidd Hoyw Deurywiol Trawsrywiol (LHDT) yn cyfarfod yn rheolaidd yn Sir y Fflint. Daw'r aelodaeth o ledled Gogledd Cymru.

Nifer y partneriaethau sifil

Ffurfiwyd 6,385 o bartneriaethau sifil gan gyplau o'r un rhyw yn y DU yn 2010 o'i gymharu â 6,281 yn 2009. Mae hyn yn gynnydd bach iawn o 1.7 y cant rhwng 2009 a 2010. Cyfanswm y nifer o bartneriaethau sifil a ffurfiwyd yn y DU ers i'r Ddeddf Partneriaethau Sifil ddod i rym ym mis Rhagfyr 2005, hyd at ddiwedd 2010, yw 46,622. Mae manylion y Seremonïau Partneriaeth Sifil (PS) a gynhaliwyd yn Sir y Fflint fel a ganlyn: -

	Nifer y seremonïau PS a gynhaliwyd	Hysbysiad o PS
2008/09	5	12
2009/10	10	15
2010/11	7	23

Ailbennu Rhywedd

Nid oes data ar gael o ran niferoedd pobl drawsrywiol yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae grŵp cymdeithasol ar gyfer y gymuned LHDT wedi'i leoli yn Sir y Fflint sydd ag aelodaeth niferus. Yn ogystal, mae grŵp cymorth, Unique, wedi'i sefydlu ers sawl blwyddyn i gefnogi'r gymuned drawsrywiol ledled Gogledd Cymru. Mae'r grŵp hwn yn cwrdd yn rheolaidd yn sir Conwy.

1.3 Y Cyngor

Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o gynghorwyr sy'n cynrychioli 57 o adrannau etholiadol yn Sir y Fflint ac fe'u hetholir yn ddemocrataidd bob pedair blynedd. Mae 49 o'r aelodau etholedig yn ddynion a 21 yn fenywod. Bu cynnydd yn nifer yr aelodau etholedig sy'n fenywod; cyn etholiadau 2008, dim ond 13 o aelodau etholedig oedd yn fenywod.

Mae'r Cyngor yn cyflogi 8,569 o bobl sy'n darparu gwasanaethau o safleoedd gwahanol o amgylch y sir gyda'r brif ganolfan weinyddol yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys celfyddydau, treth y cyngor, addysg, tai, hamdden, llyfrgelloedd, cynllunio, gwasanaethau sbwriel, gwasanaethau cymdeithasol, safonau masnach a chludiant.

Proffil o'r gweithlu

Mae'r tablau canlynol yn rhoi dadansoddiad mwy manwl o weithlu'r Cyngor.

Tabl 4: Proffil o'r gweithlu yn ôl rhyw fel yr oedd ar 31 Rhagfyr, 2011

Rhyw	Cyfanswm	%
Benywaidd	6,404	74.73%
Gwrywaidd	2,163	25.24%
Heb ei nodi	2	0.02%
Cyfanswm	8,569	

Tabl 5: Proffil o'r gweithlu yn ôl anabledd fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2011

Anabl	Cyfanswm	%
Na	4,830	56.37%
Ddim yn hysbys	3,554	41.48%
Ie	185	2.16%
Cyfanswm	8,569	

Tabl 6: Proffil o'r gweithlu yn ôl ethnigrwydd fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2011

Ethnigrwydd	Cyfanswm	%
Pobl dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	28	0.33%
Heb ei nodi	3,281	38.29%
Heb ei ddatgan	3	0.04%
Gwyn	5,257	61.35%
Cyfanswm	8,569	

Tabl 7: Proffil o'r gweithlu yn ôl oedran fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2011

Oedran	Cyfanswm	%
16-24	657	7.67%
25-34	1,419	16.56%
35-44	2,052	23.95%
45-49	1,230	14.35%
50-54	1,116	13.02%
55-59	1,067	12.45%
60-64	695	8.11%
65-69	246	2.87%
70-74	52	0.61%
75 a throsodd	35	0.41%
Cyfanswm	8,569	

2.0 Amcanion Cydraddoldeb

2.1 Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sefydlu amcanion cydraddoldeb mewn perthynas â'r grwpiau gwarchoddedig. Dylai amcanion fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chanolbwyntio ar ganlyniadau i fynd i'r afael â'r meysydd mwyaf sylweddol o anghydraddoldeb gan arwain at welliannau i weithwyr a chwsmeriaid. Dylai'r amcanion cydraddoldeb gwrdd â thair rhan y ddyletswydd gyffredinol. Hefyd mae'n rhaid i ni gyhoeddi amcan i fynd i'r afael â gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r cynllun gweithredu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn cael ei nodi yn Atodiad 1.

Datblygwyd ein hamcanion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau:-

- Gweithio ar y cyd gyda chyrrff sector cyhoeddus eraill ledled Gogledd Cymru i ymgymryd ag ymchwil ranbarthol a chenedlaethol ac ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch amcanion ranbarthol
- Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol o grwpiau gwarchoddedig i nodi materion allweddol yn eu tyb nhw
- Nodi materion lleol drwy adolygu data a chynnwys gwasanaethau

2.2 **Amcanion Cydraddoldeb Rhanbarthol** – Bu Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill ledled Gogledd Cymru i ddatblygu amcanion cydraddoldeb rhanbarthol. Roedd y cyrrff cyhoeddus yn cynnwys:-

- Chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Awdurdod Parciau Cenedlaethol a
- Heddlu Gogledd Cymru

Mae Atodiadau 2 a 3 yn disgrifio'r dull a'r ymchwil a gynhaliwyd i nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol.

Mae'r amcanion rhanbarthol fel a ganlyn:-

1. Lleihau anghydraddoldebau lechyd
2. Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn
3. Lleihau anghydraddoldebau mewn Cyflogaeth a Chyflog
4. Lleihau anghydraddoldebau mewn Diogelwch Personol
5. Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais
6. Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Mae pob amcan yn cael ei danategu gan feysydd gweithredu penodol; mae sefydliadau unigol yn gyfrifol am nodi'r meysydd gweithredu y byddant yn cyfrannu atynt. Mae'r meysydd gweithredu y bydd Cyngor Sir y Fflint yn cyfrannu atynt wedi'u eu gosod allan yn ein cynllun gweithredu. Rydym hefyd wedi gosod amcanion cydraddoldeb lleol mwy penodol sy'n cysylltu â'r amcanion rhanbarthol lefel uchel.

2.3 Datblygu amcanion cydraddoldeb lleol

Cynnwys rhanddeiliaid a phobl ar draws y nodweddion gwarchoddedig

Wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i helpu nodi amcanion cydraddoldeb, sefydlwyd grŵp cyfranogi. Mae'n cynnwys aelodau o: -

- Encompass (grŵp LHDT cymunedol)
- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- Unique (Grŵp Trawsrywiol Gogledd Cymru)
- Rhwydwaith Cyflogeion Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT)
- Rhwydwaith Pobl Hŷn
- Rhwydwaith Cyflogeion sy'n Fenywod

Roedd aelodau eraill yn cynnwys unigolion ar draws y nodweddion gwarchoddedig:-

- Pobl anabl
- Sipsiwn/Teithwyr
- Pobl hŷn
- Dynion/Menywod
- Y gymuned Drawsrywiol

Bu'r grŵp hwn yn ymwneud â datblygu holiadur a ddisbarthwyd i rwydwaith ehangach o unigolion a grwpiau ar draws y nodweddion gwarchoddedig.

Yn ogystal â'r holiadur, hwyluswyd dau weithdy gyda'r grŵp cyfranogi i nodi blaenoriaethau. Nodwyd blaenoriaethau tebyg yn y ddau weithdy.

Casglu Gwybodaeth

Hefyd adolygwyd y data a oedd gennym ar broffil gweithwyr a chwsmeriaid y Cyngor. Canfuwyd mai data cyfyngedig oedd ar gael ar broffil cwsmeriaid a gweithwyr a lle'r oedd data ar gael nid oedd yn cynnwys pob un o'r nodweddion gwarchoddedig.

Roedd yr adolygiad o asesiadau ac adroddiadau lleol a chenedlaethol yn cynnwys:-

- Lefelau cyrhaeddiad disgyblion
- Cyfrifiad 2001

- Aseiad Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint
- Uned Ddata Cymru
- Ffigyrau troseddau casineb ar gyfer Sir y Fflint
- Aseidiadau o Anghenion
- Adroddiadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

2.4 Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn lleol fel a ganlyn:-

- Mynediad i wasanaethau – mae pob aelod o'r gymuned yn gallu cael mynediad i wasanaethau, yn enwedig tai
- Hyfforddiant – caiff yr holl staff ac aelodau etholedig eu hyfforddi er mwyn ateb gofynion yr agenda cydraddoldeb
- Mae contractwyr a darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau, nwyddau a gwaith ar ran Cyngor Sir y Fflint yn cadw at yr agenda cydraddoldeb
- Cyflogaeth - mae cydraddoldeb o ran tâl ar gyfer dynion a menywod ac mae cyfansoddiad y gweithwyr yn adlewyrchu'r gymuned leol
- Llais – cyfleoedd i'r holl staff fod â llais yn y gweithle a chwsmeriaid i gael eu cynnwys wrth lunio gwasanaethau
- Troseddau Casineb – mwy o bobl yn adrodd ar ddigwyddiadau a gostyngiad mewn digwyddiadau

Mae ein hamcanion cydraddoldeb lleol penodol i gwrdd â'r blaenoriaethau hyn wedi'u gosod allan yn yr adran nesaf. Mae nifer o amcanion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n adlewyrchu dyletswydd ac ymrwymiad y Cyngor i'w rôl fel rhiant corfforaethol.

3. Cyflawni ein hamcanion

3.1 Amcan 1- Lleihau anghydraddoldebau lechyd.

Camau a gymerwyd gennym eisoes i gyflawni'r amcan hwn:-

- Gweithredu Protocol Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod – ceir ymweliadau â phob gweryll Teithwyr diawdurdod; caiff gwybodaeth am yr Ymwelydd lechyd arbenigol ei dosbarthu ac os gofynnir am hynny, caiff trefniadau eu gwneud i'r Ymwelydd lechyd ymweld â'r safle. Mae Teithwyr ar safleoedd parhaol yn cael cymorth gan swyddogion i gofrestru gyda meddyg teulu lleol os oes angen cymorth arnynt.
- Hyrwyddo chwaraeon rhyw-benodol i ddynion a menywod a darparu sesiynau “blasu” i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon anhraddodiadol, er enghraifft, pêl-droed menywod.
- Caiff defnyddwyr gwasanaethau a staff cymorth eu hannog i fynychu digwyddiadau Hybu lechyd, er enghraifft, Motiv8 ar gyfer pobl sydd â phroblemau lechyd Meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau.
- Trwy ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/dulliau adfer yn y cynllun gofal a'r cynllun darparu gwasanaethau, caiff defnyddwyr gwasanaethau eu hannog i wneud dewisiadau gwell ar gyfer ffordd o fyw. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau sy'n ddynion yn ymuno â Slimming World a gwneud gwelliant sylweddol yn eu dewis o fwyd a cholli pwysau yn ôl yr angen.
- Cyflwyno'r cerdyn Actif Ag Un, sy'n galluogi defnyddiwr gwasanaethau i gael cymorth i gael mynediad i Wasanaethau Hamdden heb orfod talu am fynediad.
- Mae hyfforddiant yn ei le yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i gefnogi byw yn annibynnol/maeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.
- Mae'r gwasanaethau Anabledd Dysgu yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau eilaidd megis optegwyr i wella mynediad. Lluniwyd taflen ar **Ddeintyddion Hygyrch yn Sir y Fflint** (cafodd ei dosbarthu ar ffurf drafft ar gyfer sylwadau gan y Grŵp Cynllunio Anabledd Dysgu cyn cael ei chwblhau).
- Mae'r cyd-dîm cyffuriau ac alcohol bellach yn cynnal clinigau lloeren mewn meddygfeydd teulu ar draws Sir y Fflint sydd wedi galluogi'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaethau i gael gwell mynediad at eu meddyg teulu.
- Mae'r gwasanaeth lechyd Meddwl nawr yn cynnig gwasanaeth i bobl Fyddar ac yn cynnig asesiadau prydlon ar y cyd ag Ymwelwyr lechyd i famau newydd sy'n isel eu hysbryd.

- Mae gwaith targedig gyda'r gymuned Bwylaidd wedi arwain at fynediad gwell i'n gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau.

Ein hamcanion cydraddoldeb lleol:-

- Defnyddwyr gwasanaethau o bob grŵp gwarchoddedig yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach
- Gwiriad iechyd i oedolion ag anabledd dysgu
- Mynediad i ofal iechyd i Blant sy'n Derbyn Gofal
- Pob person hŷn sy'n derbyn gofal cymdeithasol yn cael eu trin ag urddas a pharch
- Pob person Trawsrywiol a Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn cael eu trin ag urddas a pharch wrth dderbyn gofal cymdeithasol

3.2 Amcan 2 – Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn

Camau a gymerwyd gennym eisoes i gyflawni'r amcan hwn:-

- Wedi mynd i'r afael â thangyrhaeddiad bechgyn mewn cynlluniau gwella ysgolion cynradd ac uwchradd
- Cynhelir cyfarfodydd cyn-derbyn gyda theuluoedd disgyblion newydd sydd angen cymorth Saesneg fel Ail Iaith (SIY) i gasglu gwybodaeth am gefndir y plentyn cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu protocolau ar gyfer gweithio gyda phlant o'r Gwasanaeth Saesneg fel Ail Iaith a all fod angen cymorth ychwanegol gan wasanaethau eraill.
- Cyflwyno canllawiau "Parchu Eraill" ynghylch gwrth-fwlio mewn ysgolion.

Ein hamcanion cydraddoldeb lleol:-

- Y bwloch mewn lefelau cyrhaeddiad addysgol bechgyn a merched ym mhob cyfnod allweddol yn cael ei leihau
- Pobl ifanc yn cael mynediad i fwy o gyfleoedd am gyflogaeth
- Lefelau cyrhaeddiad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yn gwella
- Pobl ifanc sy'n agored i niwed, h.y. NEETS (Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a throseddwyr ifanc yn cael mynediad i fwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau

- Plant a Phobl Ifanc yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol

3.3 Amcan 3 – Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth

Camau a gymerwyd gennym eisoes i gyflawni'r amcan hwn:-

- Wedi ennill a chadw'r Tic Dwbl Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl. Mae'r Tic Dwbl yn gydnabyddiaeth a roddir gan y Ganolfan Byd Gwaith i gyflogwyr sydd wedi cytuno i weithredu i fodloni pum ymrwymiad o ran cyflogaeth, cadw, hyfforddi a datblygiad gyrfa gweithwyr anabl.
- Wedi ymuno â Rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall
- Caiff gwybodaeth am Ddiwrnodau Cadw mewn Cysylltiad a hawliau gweithwyr ei dosbarthu i weithwyr pan fyddant yn rhoi gwybod i Adnoddau Dynol eu bod yn feichiog neu'n mynd i fabwysiadu. Maen nhw'n derbyn y bwletin swyddi gwag tra ar absenoldeb mamolaeth i sicrhau nad ydynt yn colli allan ar unrhyw gyfleoedd am swyddi. Yn achos y gweithwyr hynny y mae eu partner yn feichiog neu sy'n bartner enwebedig, maen nhw hefyd yn derbyn gwybodaeth am eu hawliau.
- Cynnig cynllun Talebau Gofal Plant sy'n galluogi staff i aberthu cyflog yn gyfnewid am dalebau gofal plant, y gellir eu defnyddio i dalu costau gofal plant. Mae staff yn elwa oherwydd bod y swm maen nhw'n ei dalu yn rhydd o dreth ac yswiriant gwladol, gan leihau costau gofal plant.
- Ymestyn y cyfnodau gweithio hyblyg ac ystwyth sydd ar gael i staff er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran oriau gwaith, gan wella gallu'r gweithiwr i reoli eu cyfrifoldebau cydbwysedd gwaith/bywyd y tu allan i'r gweithle. Hefyd rydym yn cynnal prosiect peilot o ddileu oriau craidd yn y gwasanaeth "Refeniw a Budd-daliadau" i hysbysu datblygiad polisi a galluogi mwy o weithio hyblyg. Yn ogystal, rydym wedi hyrwyddo ymddeoliad hyblyg.
- Cynnig gweithdai Springboard i weithwyr sy'n fenywod; mae Springboard yn weithdy datblygiad personol i fenywod.
- Cynnig addasiadau rhesymol yn y gweithle i alluogi gweithwyr Anabl i ymgymryd â'u swyddogaethau yn effeithiol.
- Wedi sefydlu cynllun prosiect Statws Sengl manwl a fydd yn mynd i'r afael â chyflog cyfartal

Ein hamcanion cydraddoldeb lleol:-

- Gwella ansawdd a maint y data gweithlu mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig

- Gweithwyr yn dangos ymwybyddiaeth o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus
- Nid oes bwlch cyflog rhwng dynion a menywod a gyflogir gan y Cyngor

3.4 Amcan 4 - Lleihau anghydraddoldebau mewn Diogelwch Personol

Camau a gymerwyd gennym eisoes i gyflawni'r amcan hwn:-

- Darparu cyfres o seminarau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys
 - Gweithdy “Adeiladu Perthnasau Diogel” ar gyfer disgyblion ysgol Blwyddyn 10 mewn pum ysgol uwchradd. Mae gweithdy “Adeiladu Perthnasau Diogel” yn anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu perthnasau “iach”.
 - “Rhaglenni Rhyddid” i gefnogi menywod sydd wedi cael eu cam-drin i gynyddu eu hymwybyddiaeth o ymddygiad ymosodol ac i nodi ymddygiad annerbyniol mewn perthynas.
 - Rhaglen “Butterflies – Yr Hawl i fod yn Ddiogel” i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef cam-drin domestig.
 - Rhaglen “Tadau Gofalgar”. Mae Tadau Gofalgar yn rhaglen magu plant gan yr NSPCC sydd hefyd yn herio cam-drin gan dadau yn erbyn eu partneriaid.
 - Rhaglen “Dewis Newid” ar gyfer y rhai sy’n cyflawni cam-drin domestig. Wedi darparu “Dewis Newid”, Prosiect Peilot ar gyfer Pobl Ifanc - gan weithio gyda grwpiau o bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sy’n dangos ymddygiadau camdriniol (neu sy’n cael eu hystyried mewn perygl o ddefnyddio ymddygiadau camdriniol).
- Mae swyddogion Cynllun Ysgolion Iach Sir y Fflint mewn partneriaeth â swyddogion Cyswllt Heddlu Gogledd Cymru yn darparu hyfforddiant i athrawon ynghylch diogelwch ar y Rhyngrwyd a Ffônau Symudol.
- Lluniwyd taflen, gydag Age Concern, i hysbysu defnyddwyr gwasanaethau hŷn ynghylch ble i ddod o hyd i gymorth.
- Mae Wardeiniaid Cymdogaeth Cyngor Sir y Fflint yn darparu gwasanaeth caledu targed i holl ddioddefwyr trais yn y cartref i gadw goroeswyr yn ddiogel ac i leihau'r angen i ail-leoli. Larymau HomeSafe/Caveo - rhoddir larymau Caveo i'r rhai sydd â risg uchel o ddioddef cam-drin domestig. Mae'r rhain yn cael eu monitro 24/7 gan Carelink ac maen nhw wedi'u cysylltu ag ystafell reoli Heddlu Gogledd Cymru.

- Sefydlu cyfarfodydd MARAC, sy'n fforwm i asiantaethau gyfarfod yn fisol i adolygu achosion risg uchel o gam-drin domestig. Mae'r dull hwn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y digwyddiadau ailadroddus.
- Sefydlwyd Prosiect Cam-drin Domestig aml-asiantaeth o dan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint. Nod y prosiect yw codi proffil cam-drin domestig a datblygu a gweithredu ymateb cydlynol.
- Rhoddwyd cyllid i Cymru Ddiogelach, elusen sy'n annog dioddefwyr pob trosedd casineb i'w hadrodd trwy drydydd parti. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ganolfan adrodd Trydydd Parti ar gyfer Troseddau Casineb. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint yn derbyn adroddiadau chwarterol ar droseddau casineb ac yn cymryd camau i leihau digwyddiadau.
- Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint yn ariannu, trwy grant Cydlyniant Cymunedol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, system Monitro Tensiwn a fydd yn cael ei rheoli gan Gynllun Gwarchod Cymdogaeth Sir y Fflint. Darparwyd hyfforddiant i weithwyr ar draws y Cyngor ac asiantaethau partnerol ar sut i adnabod ac adrodd ar densiynau cymunedol.

Ein hamcanion cydraddoldeb lleol:-

- Nid yw pobl yn dioddef aflonyddu neu droseddu sy'n gysylltiedig â chasineb yn y gymuned.
- Mae'r Gymuned LHDT, pobl Anabl, pobl hŷn a phobl duon a lleiafrifoedd ethnig yn teimlo'n hyderus wrth adrodd ar gam-drin domestig.
- Caiff achosion ailadroddus o gam-drin domestig eu lleihau ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

3.5 Amcan 5 – Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais

Camau a gymerwyd gennym eisoes i gyflawni'r amcan hwn:-

- Sefydlu rhwydweithiau ar gyfer gweithwyr – Fforwm Menywod a Fforwm Gweithwyr Lesbiaidd Hoyw Deurywiol (LHDT) i sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu cynrychioli wrth gynllunio ac adolygu polisïau.
- Sefydlu grŵp o randdeiliaid ag ystod o nodweddion gwarchodedig i adolygu a hysbysu Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb.
- Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau'n mynychu cyfarfodydd Fforwm Pobl Fyddar Sir y Fflint yn rheolaidd i glywed eu safbwyntiau.

- Sefydlwyd grwpiau cynllunio gyda defnyddwyr gwasanaethau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydlwyd Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion yn yr adran Tai. Mae'r Grŵp Cynllunio Anabledd Dysgu wedi bod yn ymwneud â llunio siart ysbyty a fydd yn helpu pobl i gael syniad/cysyniad o'r amser y byddan nhw'n ei dreulio yn yr ysbyty (**Fy Arhosiad yn yr Ysbyty**). Cafodd hwn ei brofi gan aelod o'r Bartneriaeth Cynllunio pan gafodd ei derbyn i'r ysbyty yn gynharach eleni.
- Mae aelodaeth grwpiau cyfranogi yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r grwpiau hyn ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae aelodaeth y grŵp yn adlewyrchu oedran a rhyw. Ochr yn ochr â'r grwpiau, cynhelir digwyddiadau 'Siaradwch' rheolaidd a gwahoddir yr holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i'w mynychu.
- Mae monitro cydraddoldeb yn digwydd gyda phob aelod newydd o'r grŵp cyfranogi i denantiaid, caiff data eu casglu ynghylch oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd. Caiff anghenion cymorth eu nodi i alluogi cyfranogiad. Mae'r rhai sydd wedi gwirfoddoli i ymuno yn gynrychiadol, mae'r mwyafrif yn bobl hŷn sy'n cynrychioli ein stoc tai y mae 40% ohono'n llety gwarchod. Fel rhan o'r **Strategaeth Cyfranogiad Cwsmeriaid** ar gyfer Tai, mae nifer o gamau gweithredu ac ymgyrchoedd i dargedu pobl iau.
- Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn mynychu Encompass (grŵp cymunedol LHDT) yn rheolaidd; Prosiect Drws Agored – Prosiect Un Gymuned - prosiect i gefnogi cymunedau newydd, ac yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r gymuned Fwslimaidd.
- Mae gan bob ysgol gorff llywodraethol sy'n cynrychioli'r gymuned leol a Chyngor Ysgol lle mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli.
- Cafodd Teithwyr lleol gefnogaeth i fynychu Fforwm Teithwyr cenedlaethol.
- Sefydlu rhestr gorfforaethol o grwpiau/unigolion o grwpiau gwarchodedig sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori.

Ein hamcanion cydraddoldeb lleol:-

- Proffil pobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chyrrff cynrychiadol, er enghraifft, llywodraethwyr ysgolion, Cynghorau Ysgolion, Cymdeithasau Tenantiaid a Thrigolion a grwpiau cynllunio defnyddwyr gwasanaethau, yn adlewyrchu cyfansoddiad y gymuned leol yn well.
- Cynrychiolaeth i bob grŵp gwarchodedig mewn gweithgareddau ymgynghori ac asesiadau effaith ar gydraddoldeb.

3.6 Amcan 6 – Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad i wybodaeth, a gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Camau a gymerwyd gennym eisoes i gyflawni'r amcan hwn:-

- Cynnig sesiynau nofio un rhyw i annog menywod a menywod o gefndiroedd lleifarifoedd ethnig i gymryd rhan.
- Darparu sesiynau iechyd meddwl un rhyw i gynyddu presenoldeb dynion.
- Mae cyllideb gorfforaethol yn bodoli i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol ar gais. Mae contract yn ei le gyda Chymdeithas Pobl Fyddar Gogledd Cymru i ddarparu Gwasanaeth Dehongli yn Iaith Arwyddion Prydain.
- Casgliadau drws cefn ar gyfer bagiau sbwriel/ biniau olwyn/bagiau glas ar gyfer unrhyw gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd gosod sbwriel mewn man penodol.
- Gwasanaeth llyfrgell symudol i bobl sy'n ei chael hi'n anodd ymweld â llyfrgelloedd.
- Adolygwyd ein gwefan gan Shaw Trust i sicrhau ei bod yn hygyrch.
- Caiff meini prawf safonol ynghylch hygyrchedd eu cynnwys ym mhob contract ar gyfer pecynnau meddalwedd cyfrifiaduron.
- Mae Pecynnau Croeso ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dechrau derbyn gofal wedi cael eu diwygio ac maen nhw'n briodol i oedran a rhyw; mae pecynnau arbennig ar gael nawr i blant, merched yn eu harddegau a bechgyn yn eu harddegau.
- Caiff ceisiadau cynllunio eu hadolygu gan aelod o Fforwm Anabledd Sir y Fflint a rhoddir sylwadau ynghylch hygyrchedd ar geisiadau a gaiff eu gwneud i Swyddogion Cynllunio unigol.
- Cynhaliwyd asesiad rhanbarthol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i ganfod anghenion Teithwyr ar gyfer y dyfodol.
- Cynnig cwrs chwe awr achrededig y DU i hyfforddwy ac arweinwyr chwarae sy'n darparu cyfleoedd chwaraeon neu weithgaredd corfforol i blant neu oedolion anabl i wella'u gwybodaeth ynghylch sut i addasu sesiynau i gynnwys pobl anabl.
- Mae rhaglen barhaus o newidiadau ffisegol i eiddo'r Cyngor yn mynd yn ei blaen. Yn ystod y 12 mis diwethaf gwnaethpwyd gwaith ar yr adeiladau canlynol i wella hygyrchedd:-
 - Neuadd y Dref, Yr Wyddgrug

- Clwb Ieuenctid Brychdyn
- Clwb Ieuenctid Bryn Garth
- Canolfan Hamdden yr Wyddgrug (y brif fynedfa)

Ein hamcanion cydraddoldeb lleol:-

- Mynediad hawdd i wybodaeth i gwsmeriaid â nodweddion gwarchoddedig.
- Cydraddoldeb mynediad i gwsmeriaid â nodweddion gwarchoddedig i wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored a gaiff eu darparu neu eu rheoli gan y Cyngor.

4. Gweithredu

4.1 Trefniadau ar gyfer nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth

Cyflogaeth

Ar hyn o bryd rydym yn monitro proffil gweithwyr yn ôl oedran, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddir adroddiadau blynyddol ar ein gwefan ac maen nhw'n cynnwys proffil o'r:-

- gweithlu
- lefelau cyflog
- ymgeiswyr ar gyfer swyddi
- ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer eu cyfweld
- penodiadau llwyddiannus
- gadawyr
- achosion o fwlio ac aflonyddu
- camau disgyblu

Ysgolion

Rydym hefyd yn casglu data ar broffil disgyblion ysgol yn ôl oedran, ethnigrwydd, rhyw ac iaith, mewn perthynas â:-

- chyrhaeddiad (cyfnod allweddol 2, cyfnodau allweddol 3, 4 a 5)
- presenoldeb
- gwaharddiadau
- hawl i brydau ysgol am ddim

Caiff data ar gyrrhaeddiad mewn cyfnodau allweddol penodol eu cyhoeddi yn yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Mae'r data'n cael eu casglu fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaethau

Caiff proffil cwsmeriaid ei gasglu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Oedolion, y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid trwy system cwynion a sylwadau'r Cyngor. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol ar ein gwefan. Mae arolygon trigolion, arolygon bodddhad ac ymarferion ymgynghori'n casglu gwybodaeth cydraddoldeb hefyd.

Gofynnwyd i bob gwasanaeth gynnal adolygiad o'r wybodaeth cydraddoldeb y maen nhw'n ei chasglu a ble y caiff ei chyhoeddi.

4.2 Trefniadau ar gyfer asesu effaith

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd benodol, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus nodi dulliau asesu effaith o ran polisiau ac arferion. Mae hyn er mwyn sicrhau bod anghenion a phryderon yr holl grwpiau gwarchoddedig yn cael eu hystyried.

Mae offeryn sgrinio ar gyfer asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (AEGau) a thempled ar gyfer asesiad o effaith llawn wedi cael eu datblygu. Mae rhaglenni parhaus o weithdai i gynorthwyo Cyfarwyddiaethau i gynnal AEGau wedi cael eu gweithredu. Bydd pob asesiad o'r effaith yn cael ei gymeradwyo gan y Gyfarwyddiaeth berthnasol. Mae grŵp o randdeiliaid yn cynrychioli nodweddion gwarchoddedig ymhlith gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd yn adolygu AEGau a rhoi adborth i'r awduron. Caiff camau yn deillio o AEGau eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaeth lle byddant yn cael eu monitro. Caiff crynodebau o AEGau sy'n cael effaith sylweddol fel y cytunwyd gan y grŵp rhanddeiliaid eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae adran "Effaith ar Gydraddoldeb" y mae'n rhaid ei llenwi yn yr holl adroddiadau i'r Pwyllgor. Awdur yr adroddiad sy'n gyfrifol am lenwi'r adran hon.

4.3 Trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth a nodi anghenion hyfforddiant gweithwyr mewn perthynas â dyletswyddau'r sector cyhoeddus

Mae'r adran hon yn gosod allan trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod gan weithwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol a phenodol. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o godi ymwybyddiaeth/hyfforddiant yn generig a bod angen i bob gweithiwr fod yn ymwybodol, a bydd hyfforddiant arall yn ymwneud yn fwy penodol â rolau swyddi unigol gan gefnogi gweithredu'r CCS.

Mae gweithgareddau penodol i gefnogi'r trefniadau hyn yn cynnwys:-

- darparu cwrs hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb generig ar gyfer pob gweithiwr, sy'n cynnwys ymwelwyr cymunedol ar draws y nodweddion gwarchoddedig. Caiff amrywiaeth a chydraddoldeb eu cynnwys yn y rhaglen ymsefydlu.
- Gweithdai penodol ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a darpariaeth hyfforddiant arbenigol i Adnoddau Dynol ar bynciau megis ymwybyddiaeth Drawsrywiol, a delio â bwlio homoffobig. Hefyd rydym yn darparu hyfforddiant i gefnogi mentrau megis Wythnos Ymwybyddiaeth o'r Byddar.
- Hefyd mae gweithwyr wedi derbyn dau bapur briffio gweithwyr ynghylch Deddf Cydraddoldeb 2010 ac un ar ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- Mae adnoddau ar gael ar fewnwyd y Cyngor gan gynnwys canllawiau ar gyfer gweithio gyda phobl o'r grwpiau gwarchoddedig.
- Cynllun peilot o fenter e-ddysgu i hyrwyddo dealltwriaeth ehangach.
- I sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bydd cyfres o sesiynau briffio gweithwyr yn cael eu cynnal

- Bydd anghenion hyfforddiant mewn perthynas â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cael eu nodi fel rhan o'r broses arfarnu. Bydd rheolwyr yn derbyn canllawiau fel y nodir yn y cynllun gweithredu o dan amcan 3.

4.4 Sut y byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb mewn caffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus yng Nghymru:-

- roi ystyriaeth ddyledus ynghylch a fyddai'n briodol i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract gynnwys ystyriaethau i helpu cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol
- rhoi ystyriaeth ddyledus ynghylch a fyddai'n briodol i bennu amodau yn ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Yn achos rhai contractau, bydd cydraddoldeb yn ofyniad craidd a bydd hyn yn cael ei osod allan yn fanwl o fewn y contract. Mae Polisi Caffael Cyngor Sir y Fflint yn datgan ei ymrwymiad i:-

- Ddefnyddwyr pob gwasanaeth
- Amcanion craidd a pholisi'r Cyngor
- Cydymffurfio â nodau ac amcanion gwasanaeth
- Gwella parhaus
- Ansawdd a chydaddoldeb
- Effeithlonrwydd gweithredol

Mae ein Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig yn yr holiadur cyn cymhwyso (HCC) ar gyfer tendrau. Mae canllawiau ar gael i weithwyr ar gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb mewn contractau penodol. Mae canllawiau drafft ar gael hefyd ar gyfer contractwyr ynglŷn â'r hyn rydym yn ei ddisgwyl ganddynt pan maen nhw'n darparu nwyddau, gwasanaethau, a gwaith ar ein rhan. Yn ogystal, byddwn yn cynnal sesiynau briffio ar gyfer contractwyr i wella eu hymwybyddiaeth o'n disgwyliadau o ran cydraddoldeb a chontractau.

5 Monitro ac Adolygu

Bydd cyfarwyddiaethau'n ymgorffori amcanion a chymau gweithredu yn eu cynlluniau gwasanaeth i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu monitro ar lefel gwasanaeth a Chyfarwyddiaeth. Caiff adroddiad yn disgrifio'r cynnydd at gwrdd â'r amcanion cydraddoldeb ei gyhoeddi bob blwyddyn; caiff gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb ei chyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Caiff cynnydd ei fonitro trwy'r Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol, y Grŵp Rhanddeiliaid, y Tîm Rheoli Corfforaethol, a Phwyllgorau Craffu Gweithredol a Throsolwg perthnasol.

Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei adolygu/ailgyhoeddi erbyn mis Ebrill 2016 neu'n gynharach os bydd monitro'n dangos bod angen diwygio'r amcanion cydraddoldeb.

6. Cyhoeddi

Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac Easy Read. Bydd crynodeb ar gael ar DVD yn laith Arwyddion Prydain. Bydd fformatau ac ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Mae gwybodaeth ynghylch proffil y gweithlu'n cael ei chyhoeddi bob blwyddyn.